

Trin cloffi niwrogenig a achosir gan stenosis meingefn yr asgwrn cefn drwy roi dyfais wahanu rhwng y fertebrâu

*Mae arweiniad
Techlechyd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio dyfais wahanu yn y GIG i drin pobl â chlofffi niwrogenig a achosir gan stenosis meingefn yr asgwrn cefn. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio cloffi niwrogenig o ganlyniad i stenosis meingefn yr asgwrn cefn na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai llawfeddygon arbenigol asgwrn y cefn sy'n gallu cynnig ystod o opsiynau triniaeth llawfeddygol benderfynu i ba gleifion y dylid cynnig y driniaeth hon.

Sylwadau eraill gan NICE

Efallai na fydd y driniaeth yn cynnig gwellhad hirdymor a dylid rhybuddio cleifion y gall fod angen llawdriniaeth bellach.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer cloffi niwrogenig.

Dylai eich tîm gofaliachyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Trin cloffi niwrogenig a achosir gan stenosis meingefn yr asgwrn cefn drwy roi dyfais wahanu rhwng y fertebrau

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'Ymyriad rhyngbigynnol ar gyfer stenosis meingefn yr asgwrn cefn sy'n achosi cloffi niwrogenig'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae nerfau'n rhedeg drwy'r asgwrn cefn i lawr 'twnnel' sef pibell yr asgwrn cefn. Pan fydd achos o stenosis meingefn yr asgwrn cefn, mae'r twnnel yn culhau am fod disgiau a chymalau'r asgwrn cefn yn treulio. Gall y nerfau sy'n mynd drwy'r bibell hon sydd wedi culhau wasgu'n dynn pan fydd yr unigolyn yn sefyll neu'n cerdded unrhyw bellter, gan achosi pinnau bach yn y nerfau, poen, dim teimlad neu wendid yn y coesau (sef cloffi niwrogenig). Caiff y symptomau eu lleddfu pan fydd

asgwrn y cefn wedi plygu (wrth eistedd neu bwysu ymlaen). Gall meddyginiaethau gwrthlidiol ansteroidaidd a gorffwys leddfu'r symptomau, neu gellir cynnal llawdriniaeth i dynnu meinwe sy'n pwysu ar y nerfau oddi yno.

Mae'r driniaeth hon yn gofyn am roi dyfais wahanu yn y gwagle rhwng dau fertebra er mwyn lleddfu'r pwysau ar y nerfau ac, o ganlyniad, leddfu'r poen yn y coesau wrth sefyll neu gerdded. O dan anesthetig lleol a thawelydd (neu weithiau anesthetig cyffredinol), bydd y claf yn gorwedd fel bod ei asgwrn cefn fel y byddai pe bai'n eistedd neu'n pwysu ymlaen (pan nad yw'r nerfau'n cael eu gwasgu). Defnyddir pelydrau-X i ddangos lle mae angen rhoi'r ddyfais. Gwneir toriad, a rhoddir y ddyfais wahanu yn ei lle fel na all yr asgwrn cefn symud yn ôl (ymestyn) na gwasgu'r nerfau. Mae gwahanol fathau o ddyfeisiadau ar gael a defnyddir triniaethau ychydig yn wahanol i'w rhoi yn eu lle. Gellir defnyddio mwy nag un ddyfais wahanu os yw pibell yr asgwrn cefn wedi culhau ar fwy nag un lefel.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu ei bod yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i gael y driniaeth. Dylid rhoi gwybod i chi hefyd na fydd y driniaeth yn cynnig gwellhad hirdymor efallai ac y gall fod angen llawdriniaeth bellach.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael
y driniaeth hon, cael
triniaeth wahanol,
neu beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 13 o astudiaethau o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 191 o gleifion, gwellodd symptomau 45% o'r cleifion a gafodd y driniaeth a 7% o'r cleifion a gafodd feddyginiaeth wrthlidiol a gorffwys. Mewn astudiaeth arall, cafodd 61 o gleifion naill ai'r driniaeth hon neu lawdriniaeth ymasiad. Cyn y driniaeth ac ar ei hôl sgoriodd y cleifion eu poen ar raddfa o un i ddeg ac ateb holiadur a oedd yn gofyn sut roedd y boen yn eu cefn neu eu coesau yn effeithio ar eu gallu i ymdopi â bywyd bob dydd. Gwellodd y boen yn y cefn ac yn y coesau yn sylweddol ar ôl y ddwy driniaeth, ond nid oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau grŵp.

Dangosodd yr astudiaeth o 191 o gleifion fod angen llawdriniaeth bellach ar 6 allan o'r 100 o gleifion a gafodd y driniaeth. O'r 91 o gleifion a gafodd feddyginiaeth a gorffwys, cafodd 24 ohonynt lawdriniaeth yn nes ymlaen. Dangosodd yr astudiaeth hon hefyd fod ansawdd bywyd y cleifion a gafodd y driniaeth lawer yn well pan edrychwyd ar eu cynnydd ar ôl dwy flynedd.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai lleddfu poen yn y coesau a gweithredu'n well yw nodau allweddol y driniaeth hon.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn pedair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 396 o gleifion (241 o driniaethau), cafwyd naw problem yn ymwneud â lleoliad y ddyfais. Yn

yr astudiaethau nodwyd hyn fel 'malpositioning', 'migration', 'fracture' neu 'dislocation'. Mewn astudiaeth o 69 o gleifion nodwyd torri cnapiau asgwrn cefn (rhan o'r fertebra), a ddigwyddodd i un claf yn ystod y driniaeth a thri chlaf ar ôl y driniaeth (roedd un o ganlyniad i drawma nas eglurwyd ymhellach).

Mewn dwy astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 244 o gleifion, gofynnodd 26 o gleifion am gael tynnu'r ddyfais, ond ni nodwyd pryd, ar gyfartaledd, y gofynnwyd am hyn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyd bod haint a'r ddyfais yn symud yn broblemau posibl a allai ddigwydd.

Rhagor o wybodaeth am stenosis meingefn yr asgwrn cefn

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar stenosis meingefn yr asgwrn cefn a phroblemau cefn eraill, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'Ymyriadau rhyngbigynnol ar gyfer stenosis meingefn yr asgwrn cefn sy'n achosi cloffi niwrogenig'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG238

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8251-6

N2403 1P November 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.